

WNO WELSH
NATIONAL
OPERA
CENEDLAETHOL
CYMRU



Golwg ar opera

La traviata

Adnodd Athrawon

Dod ag opera i mewn i'r dosbarth CA3 a CA4

Cefnogir Golwg ar Opera gan
Ymddiriedolaeth Elusenol Gibbs

Cynnwys

Nod **Golwg ar Opera: Dod ag opera i mewn i'r dosbarth** yw yn union hynny drwy gynnig tocynnau am ddim i ymarferion mewn gwisg, gweithdai i ddisgyblion a'r adnodd hwn i athrawon. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys ychydig o wybodaeth baratoadol i chi fedru ymchwilio *La traviata* gyda'ch disgyblion cyn dod i weld yr ymarfer gwisg. Fe welwch weithgareddau creadigol fydd yn annog eich disgyblion i wrando a gwerthuso, dolenni i Gerdd TGAU a chynllun dosbarth defnyddiol y gallwch ei ddefnyddio i gynnal eich ffordd drwy'r opera gyda'ch disgyblion. Mae'r holl weithgareddau'n adlewyrchu amcanion allweddol Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn y Nghwricwlwm Cenedlaethol mewn Cerdd. Cewch hyd i ddarnau o gerddoriaeth ar y rhyngwyd a argymhellir gennym i'w defnyddio'n rhad ac am ddim ar safleoedd megis spotify, grooveshark, last fm ac ati.

Perfformir *La traviata* mewn Eidaleg gydag uwchdeitlau mewn Cymraeg a Saesneg.

Mae'r perfformiad yn para rhyw 2 awr 40 munud ac yn cynnwys dwy egwyl.

Pennod Un

La traviata

- 1 Cyflwyniad i Opera
- 2 Prif Gymeriadau
- 3 Trosolwg Sydyn
- 4 Cyfolwg Manwl
- 5 Y Libreto
- 6 Y Gerddoriaeth

Pennod Dau

Creu opera

- 1 Sut i greu opera (taflen i'w llungopïo)
- 2 Awgrymiadau i roi cymorth i ddilyn opera

Pennod Tri

Cynllun Gwers

- 1 Cyflwyniad i opera
- 2 Y cymeriadau, stori a chyd-destun hanesyddol *La traviata*
- 3 Y gerddoriaeth a themâu melodaidd allweddol
- 4 Cyfansoddi i gyfleu cymeriad ac emosiwn y sefyllfa

Ysgrifennwyd y Pecyn Athrawon gan Sarah ap Iwan-Evans

Pennod 1

La traviata

Beth yw opera?

Mae **Opera** yn berfformiad llwyfan dramatig wedi ei osod i gerddoriaeth. Mae opera yn ddarn theatr, fel drama ond yn hytrach na siarad y geiriau mae'r cymeriadau yn eu canu. Yn y rhan fwyaf o operâu nid oes geiriau'n cael eu siarad, mae popeth yn cael ei ganu o'r cychwyn i'r diwedd. Gall opera eich tywys ar daith anturus, o gariad, marwolaeth, twyll a gwrthdaro. I rai gall operâu fod yn debyg i'r operâu sebon ar y teledu.

Mae cerddorfa'n cyfeilio mewn opera ac yn cyflwyno prif themâu'r opera yn ystod yr Agorawd, sy'n cael ei chwarae ar gychwyn yr opera.

Lleisiau (uchaf i'r isaf):

Soprano Llais Violetta Valéry, y llais uchaf ymhlith y merched.

Mezzo soprano Llais Flora Bervoix, llais is ymhlith y merched.

Tenor Llais Alfredo Germont, y llais uchaf ymhlith y dynion.

Baritôn Llais Giorgio Germont, is na thenor ond yn uwch na bas.

Bas Llais Doctor Grenvil, yr isaf o leisiau'r dynion.

Prif gymeriadau



Violetta Valéry
Soprano / putain llys



Alfredo Germont
Tenor / mewn cariad â Violetta



Giorgio Germont
Baritone / tad Alfredo



Flora Bervoix Mezzo
Soprano / ffrind Violetta



Gastone de Letorières
Tenor / ffrind Alfredo, larll



Baron Douphol
Baritôn / hebryngydd Violetta a gelyn Alfredo



Doctor Grenvil
Bas / meddyg Violetta

Trosolwg sydyn

Wedi ei gosod ym Mharis yn ystod yr haf 1850, mae'r opera'n canolbwyntio ar Violetta, putain llys, ei charwriaethau niferus a'i brwydr yn erbyn y diciâu.

Yn yr act gyntaf mae hi'n cynnal parti i ddathlu ei gwellhad o'r salwch ac yn cael ei chyflwyno i edmygwr ifanc ohoni, Alfredo Germont. Nid yw Violetta yn credu mewn cariad ac o wybod, oherwydd ei salwch, y bydd ei bywyd yn fyr, mae hi'n mynnu byw bywyd llawn pleser. Mae Alfredo'n dal ati ac mae'n cyffwrdd ei chalon. Rhai misoedd yn ddiweddarach, mewn plasty, mae ymdrechion Alfredo wedi llwyddo ac mae Violetta ac yntau'n byw bywyd syml iawn gyda'i gilydd. Ond nid oes da. Mae tad Alfredo, Giorgio Germont yn anhapus â'r berthynas gan fod y cyfan yn pardduo enw da'r teulu a gallu ei ferch i briodi. Mae'n taro bargaen gyda Violetta y bydd hi'n gadael Alfredo ac yn dychwelyd i Baris, er mwyn iddo achub sefyllfa'i ferch.

Mae Violetta yn gadael am Baris ac yn dychwelyd i fwy yno unwaith eto fel putain llys gyda'r larll. Mewn parti ffrind mae Alfredo'n ymddangos ac mae brwydr gardiau rhwng Alfredo a'r larll yn troi'n flêr gydag ef yn codi cywilydd yn gyhoeddus ar Violetta drwy dalu am ei gwasanaeth.

Gyda dim ond ei morwyn Annina a'r Meddyg yn gwmni iddi, mae iechyd Violetta wedi torri. Mae hi ar ei gwely angau ond yn darllen llythyr gan Giorgio Germont drosodd a throsodd ac yn grediniol y bydd Alfredo yn dod ati. Yn yr eiliadau olaf daw'r tad a'r mab. Ceir llygedyn o obaith wrth i Alfredo a Violetta gofleidio, ond mae'n rhy hwyr ac mae Violetta'n marw.



Cyfolwg manwl

Wedi ei gosod ym Mharis yn yr haf 1850

Act I

Yn nhŷ Violetta Valéry mae parti yn ei anterth i ddathlu ei gwellhad yn dilyn salwch difrifol. Daw grŵp yn hwyr yno a chyflwynir Violetta i Alfredo Germont gan Gaston de Letorières, sy'n dweud wrthi sut y bu Alfredo'n poeni amdani yn ystod y salwch gan alw'n feunyddiol i holi am ei hiechyd. Mae Violetta mewn penbleth gan nad yw hi prin yn ei adnabod, ond serch hynny wedi ei chyffwrdd ganddo gan nodi sut y methodd ei hebryngydd yr larll Douphol i ddangos yr un consyrn tuag ati. Dros ginio mae Gaston yn gal war yr larll i gynnig llwnc destun, ond mae'n gwrthod ac mae Alfredo'n cael ei berswadio i ganu'n hytrach. Mae'n cynnig llwnc destun yn enw cariad. Mae Violetta, mewn ymateb, yn cynnig llwnc destun yn enw pleser gan na nad yw'n credo y bydd hi fyth mewn cariad.

Mae Violetta'n gwahodd ei gwesteion i ddawnsio ac mae'r parti'n symud i'r ystafell nesaf. Ond mae Violetta'n troi'n welw ac yn llewygu, gyda'i hafiechyd wedi ei tharo unwaith eto. Mae'r gweddill yn ei gadael i fynd at y dawnsio ond mae Alfredo'n aros gyda hi, gan rybuddio Violetta y bydd yn rhaid iddi gymryd gofal a manteisio ar y cyfle hefyd i ddatgelu ei gariad tuag ati.

Mae hi'n chwerthin ar ei ben ac yn ystyried y cyfan yn siarad gwag. Unwaith eto mae Alfredo'n datgan ei gariad, ac o weld ei fod o ddifrif mae Violetta'n dweud wrtho am chwilio yn rhywle arall am gariad gan nad yw hi'n medru ei gynnig nac yn ei ddeall. Yn ddigalon mae Alfredo'n gadael, ond mae Violetta'n rhoi blodyn iddo, gan ddweud wrtho am ddychwelyd wedi i'r blodyn wywo.

Mae'r wawr yn torri a daw'r parti i ben. Mae Violetta'n meddwl am sut y bu i angerdd Alfredo ei chyffwrdd ond mae hi'n grediniol beth fydd ei thynged, bydd ei bywyd yn fyr a ffwlbrï yw breuddwydio fel arall.

Act II

Rhai misoedd yn ddiweddarach mewn plasty ger Paris. Mae Violetta wedi syrthio mewn cariad ag Alfredo ac wedi rhoi heibio ei bywyd moethus fel putain llys i fyw bywyd syml gydag o yng nghefn gwlad. Nid yw Alfredo'n ŵr cyfoethog ac yn slei bach mae Violetta wedi bod yn gofyn i'w morwyn Annina werthu ei meddiannau er mwyn cadw dau ben llinyn ynghyd. Nid yw Alfredo'n ymwybodol o hyn, hyd nes i Annina ddatgelu ei rheswm dros deithio ac mae Alfredo'n mynd i Baris i ofyn am arian gan ei dad er mwyn iddo fedru prynu meddiannau Violetta'n ôl.

Mae hen ffrind, Flora Bervoix, yn gwahodd y cwpl i barti'r noson honno ym Mharis. Mae Violetta'n gweld y peth yn ddoniol ac yn gwrthod y gwahoddiad. Ond daw ymwelydd annisgwyl yno; Giorgio Germont, tad Alfredo. Mae'n ei chyhuddo o ddinistrio ei fab a pheryglu gobeithion ei ferch i briodi. Wedi ei brifo ac yn ddigalon mae hi'n dangos derbynebaw gwerthiant ei meddiannau – serch hynny mae Giorgio'n parhau i fynnu iddi adael Alfredo er mwyn iddo fedru cadw enw da'r teulu. Yn deilchion ac yn gweld ei breuddwyd yn llithro o'i gafael, mae'n ceisio taro bargaen â Germont gan sôn wrtho am ei salwch a'r cariad sydd ganddi at Alfredo. Ond nid yw Germont am wrando ac yn y diwedd mae Violetta'n cytuno i adael gyda'r addewid y caiff Alfredo wybod y gwir pan fydd hi'n marw. Mae Violetta'n paratoi i ddychwelyd i Baris ac at larll Douphol. Mae Alfredo'n ddigalon ac nid yw'n medru derbyn rhesymau Violetta dros adael. Mae'n canfod gwahoddiad Flora ac yn gadael er mwyn dod o hyd iddi.

Fflat Flora ym Mharis. Mae Flora'n cynnal parti mawreddog gyda Violetta'n brif westai. Daw'n amlwg bod Violetta wedi gadael Alfredo ac y bydd hi'n dod i'r parti gyda'r larll yn hytrach. Daw Alfredo yno ac yn smalio peidio â malio dim am Violetta. Mae'r larll yn dweud wrthi am anwybyddu ei chariad.

Cyfolwg manwl (*parhad*)

Mae'r parti'n setlo a chynhelir gêm o gardiau sy'n troi'n frwydr rhwng Alfredo a'r larll, ond yn ffodus iawn daw swper i ddistewi'r anghydfod. Mae Violetta'n annog Alfredo i aros i siarad gyda hi a'i annog i adael y parti. Mae'n cytuno i wneud hynny os gwnaiff hi ei ddilyn ond mae hi'n dweud ei bod hi mewn cariad â'r larll ac mae hi'n gwrthod. Mae Alfredo yn galw am sylw pawb yn y parti ac yn cyhoeddi y bydd yn talu am ei gwasanaeth, gan daflu enillion y gêm ati. Mae gan y parti gywilydd ohono ac mae Giorgio Germont, sydd wedi cyrraedd mewn da bryd i weld y cyfan, yn troi ei gefn ar ei fab yn gyhoeddus.

Act III

Ystafell wely Violetta, rhai misoedd yn ddiweddarach. Mae Violetta'n marw, y diciâu wedi ailgydio ac mae Dr Grenvil yn dweud wrth Annina bod Violetta yn agos at y diwedd. Gyda'i ffrindiau wedi troi eu cefnau arni ar beili'n disgwyl wrth y drws, mae hi'n unig.

Mae hi'n darllen llythyr gan Giorgio Germont, cafwyd gornest rhwng Alfredo a'r larll a dihangodd Alfredo i Ffrainc wedi iddo anafu'r larll. Mae Giorgio'n datgelu bod Alfredo bellach yn ymwybodol o'r aberth y mae Violetta wedi ei wneud ac y bydd wrth ei hochr yn fuan iawn. Mae amser yn brin.

Mae Annina'n cyhoeddi bod ymwelwyr yno, Alfredo a'i dad. Mae'r cariadon yn cofleidio, yn maddau i'w gilydd a cheir ennyd o obaith y gallant o'r diwedd fod yn un. Ond mae'r gobaith yn pylu wrth i farwolaeth Violetta ddynesu ac mae hi'n llewygu. Llawn edifeirwch mae Giorgio yn erfyn am faddeuant, ond mae'n rhy hwyr, mae'r meddyg yn datgan bod Violetta'n farw.



Y Libreto a cerddoriaeth

The libreto

Seilir y libreto, a ysgrifennwyd gan Francesco Maria Piave, ar nofel *La Dame aux Camélias* (1848) gan Alexandre Dumas fils. Ystyr *La traviata* yw'r Ferch a Syrthiodd.

Seiliwyd cymeriadau'r nofel ei hun ar realiti, sef y butain o Baris, Marie Duplessis a Alexandre Dumas fils, mab y nofelydd. Cyfarfu Marie and Alexandre am y tro cyntaf mewn opera yn 1844, a chawsant garwriaeth am 11 mis, gwahanu a bu farw Marie'n fuan wedyn.

Y gerddoriaeth


Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Giuseppe Verdi, 1813 – 1901, cyfansoddwr rhamantaidd Eidalaid a chyfansoddwr opera byd enwog. Mae'n adnabyddus am ei waith ar gyfer *Rigoletto* (1851), *Il trovatore* (1853), *La traviata* (1853), *La forza del destino* (1862), *Don Carlos* (1867), *Aida* (1871), *Otello* (1887), a *Falstaff* (1893).

Yn 1852, cyfansoddodd *La traviata*, gan gofleidio'r testun anturus a chyfoes 'testun ein hoes ni'. Roedd gan stori'r opera arwyddocâd personol i Verdi, a oedd yn byw gyda'r soprano Giuseppina Strepponi. Fel Violetta roedd ganddi orffennol amheus a dioddefodd salwch difrifol. Roedd *La traviata* yn dipyn o sgandal am y cyfnod wrth iddi dorri'n groes o'r math o destun a ystyriwyd yn 'dderbyniol' ar gyfer opera. Er i'r première gael ei berfformio mewn gwisg yr ail ganrif ar bymtheg, cafwyd prima donna ddigon stowt i chwarae rhan yr arwres a achosodd i'r perfformiad cyntaf yn Fenis droi'n dipyn o ffiasco.



Pennod 2

Sut i greu opera



Awgrymiadau i roi cymorth i ddilyn opera

Dewch â'ch disgyblion i weld ymarfer gwsg
Gadewch i'ch dosbarth wybod bod dod i weld ymarfer gwsg o opera yn union fel unrhyw ymweliad arall â'r theatr. Cofiwch...

- Bydd angen i'r disgyblion aros yn eu seddi drwy gydol y perfformiad. Bydd dwy egwyl ar gyfer bwyd, diod a defnyddio'r toiled.
- Anogwch eich disgyblion i wrando'n ofalus i'r opera, ni ddylid siarad ac mae hynny'n amharu ar y perfformwyr a gweddill y gynulleidfa.
- Anogir cymeradwyaeth
- Gan ei fod yn ymarfer gwsg gall yr arweinydd stopio ambell waith i gywiro pethau.
- Cofiwch ddiffodd ffonau symudol.

Sut i roi cymorth i'ch disgyblion ddilyn yr opera
Sut alla i ddilyn beth sy'n digwydd?

Mae'r sgwrs neu'r adroddgan yn symud y cyfan yn ei flaen ac yn sicrhau eich bod yn gwybod beth sydd yn digwydd. Nid yw'r caneuon, neu'r arias yn gwneud hyn ond yn hytrach maent yn rhoi emosiwn y cymeriad neu'r sefyllfa i chi.

Weithiau gall fod yn anodd yn dilyn yr hyn mae'r cantorion yn ei ddweud, yn enwedig os ydynt yn canu mewn iaith dramor. Rhoddir uwchdeitlau ar y sgriniau uwchben y llwyfan sy'n cyfieithu'r sgwrs.

Drwy arwain drwy'r cynllun gwers ar ddiwedd y pecyn hwn, gobeithiwn y bydd eich disgyblion yn llwyddo i ddeall y prif gymeriadau a stori'r opera. Bydd yn ddefnyddiol rhoi gwybodaeth i'ch disgyblion ynglŷn â datblygiad phob golygfa, er mwyn iddynt ddeall yn union sy'n digwydd ar yr adeg honno a'u hannog i wrando ar ddarnau o'r gerddoriaeth cyn dod i'r theatr.

Geirfa ddefnyddiol

Libreto Gair Eidaleg am 'lyfr bach', yr ysgrif sy'n cefnogi'r gerddoriaeth

Uwchdeitl Y geiriau a gyfieithir ar gyfer yr opera.

Agorawd Y darn offerynnol ar gychwyn yr opera, sy'n cyflwyno prif themâu'r opera.

Aria O'r gair Eidaleg am 'aer'. Dyma gân ar gyfer unawdydd ac yn cael ei defnyddio i gyfleu emosiwn unrhyw gymeriad.

Opereta Adloniant cerddorol ysgafn a doniol yn aml yn cynnwys dawns, sgwrs ar lafar ac ambell i jôc ymarferol. Dipyn o sioe gerdd.

Corws Yn WNO mae 20 o ddynion, a 20 o ferched, yn canu Soprano, Mezzo, Tenor a Bas, mewn ensemble.

Diva Seren opera fenywaidd. Mewn cyfieithiad ceir disgrifiad o 'dduwies; a all fynnu sylw ac yn seren sy'n anodd ei thrin'.

Bravo! Y gair Eidaleg am glod sydd yn aml yn cael ei weiddi o'r gynulleidfa ar ddiwedd perfformiad.

Vibrato Y dôn grynedig a ychwanegir gan gantor wrth gynnal nodyn.

Coloratura Soprano â thôn eithriadol o uchel sydd â hyblygrwydd lleisiol eithriadol ac yn medru perfformio darnau coeth a darnau uchel gyda chrychnodau ategol.

Byddwch yn adolygydd cerdd!

Tasg i'r Disgyblion:

Anogwch eich disgyblion i adolygu'r opera gan gynnwys y gerddoriaeth gan y gerddorfa, caneuon y cantorion (fel grwpiau neu'n unigol), y setiau, y llwyfannu a'r cyfarwyddo.

Pa rannau o'r opera a fwynhawyd a pha rai nid cymaint felly? A oedd y disgyblion yn hoffi'r ffordd y portreadwyd y cymeriadau gan y cantorion? Beth fyddai wedi cryfhau'r opera, ei gwneud yn fwy doniol neu yn well drwy ei hysgrifennu'n wahanol?

Pennod Tri

Cynllun Gwers

Amcanion allweddol i ddisgyblion

- I ddod yn gyfarwydd ag opera fel genre.
- I ddod yn gyfarwydd â'r cymeriadau allweddol a stori'r opera
- I ddeall y cyd-destun hanesyddol a dylanwad cerddoriaeth ar fywyd beunyddiol, diwylliant, gwleidyddiaeth ac ati
- I ddod yn gyfarwydd â'r gerddoriaeth ac adnabod themâu melodaidd allweddol

Tasg Ychwanegol, Amcanion Disgybl

- Cyfansoddi i adlewyrchu cymeriad
- Cyfansoddi i adlewyrchu emosiwn y sefyllfa

I gychwyn

- Cyflwynwch eich dosbarth i brosiect **Golwg ar Opera: Dod ag Opera i mewn i'r Dosbarth**
- Trafodwch gyda'ch dosbarth yr hyn maent yn ei wybod yn barod am opera ac os oes ganddynt unrhyw gwestiynau.

Enghraifft

Yr hyn yr ydym yn ei wybod yn barod	Geirfa allweddol	Cwestiynau
Mae cerddoriaeth mewn opera	Cerddoriaeth, opera	Beth sydd mor arbennig am yr arddull operatig o ganu?
Gall fod yn anodd ei ddeall	Ieithoedd	Pam fod opera'n aml yn cael ei pherfformio yn yr iaith wreiddiol?

- Rhowch lungopi o bob disgybl o daflen 'Sut i wneud opera' a thrafod y gwahanol gamau gyda nhw a'r holl bobl sydd eu hangen i gynhyrchu opera a'i rhoi at ei gilydd.

Prif Dasg (Pennod Un fel deunydd cyfeiriol)

Trafodwch opera fel math o gelfyddyd gyda'ch dosbarth

- Gwahanol ddimensiynau o opera: y llais, cerddoriaeth gerddorfaol, elfen weledol yr opera (golygfa, gwisgoedd, effeithiau arbennig)
- Gwreiddiau opera mewn dramâu Groegaidd
- Y gwahaniaeth rhwng opera a theatr gerddorol

Gwnewch siart cymeriadau allweddol gyda'ch dosbarth, gan drafod hefyd y math o lais sydd ganddynt

- Pwy yw'r cymeriad a'i gysylltiad ag eraill?
- Trafodwch brif nodweddion y cymeriad.
- Beth yw'r berthynas rhwng y cymeriadau?

Stori fwrdd plot La traviata

- Gall fod o ddefnydd i wneud rhestr o bwyntiau bwled o'r digwyddiadau allweddol yn y plot a rhoi'r rhain at ei gilydd er mwyn rhoi cymorth i'ch disgyblion ddilyn y plot.
- Trafodwch wreiddiau stori La traviata a'r Alfredo a'r Violetta 'go iawn'.
- Gosodwch yr opera yng nghyd-destun hanesyddol y cyfnod a thrafodwch y pwyntiau llosg.

Trafodwch y cyfansoddwr Verdi gyda'ch dosbarth

- Chwaraewch ychydig o ddarnau o'r opera i'ch disgyblion a thrafod sut mae'n adlewyrchu anawsterau'r cymeriad

Prelwd i Act I 'Thema Violetta' a glywir am y tro cyntaf yn y Prelwd ac a chwaraeir yn union cyn i'r llen godi. Mae'r thema hon yn symbol o ddiodefaint Violetta gyda diciâu ac fe'i clywir unwaith eto yn yr act olaf pan fydd Violetta ar fin marw.

'Sempre Libera' ('Yn rhydd am byth') Aria Violetta ar ddiwedd Act 1 yn adlewyrchu ei dyhead am fywyd rhydd.

Tasgau ychwanegol

Cyfansoddi i adlewyrchu cymeriad

Mae Verdi'n defnyddio amryw o dechnegau cyfansoddiadol i adlewyrchu Violetta.

Enghraifft:

Preliwd i Act I y thema i adlewyrchu brwydr Violetta yn erbyn diciâu.

Mae'r 15 bar cyntaf o'r gerddoriaeth yn adlewyrchu ei chyflwr bregus a'i brwydr yn erbyn y salwch gyda'r defnydd o offerynnau llinynnol, rhoi pwyslais ar guriadau gwanaf y bar a dynodiadau deinamig distaw. Pan ddychwela'r darn hwn yn y preliwd i Act 3, gan nodi marwolaeth Violetta, gall y curiadau trawsacennog gael eu clywed yn cyfleu llafain.

Tasg y disgybl:

Mewn parau ceisiwch ddyfeisio sgwrs i greu thema felodaidd. Yn eich tro dyfeiswch thema sy'n drist, hapus, blin, llawn galar neu genfigen.

Cyfansoddwch thema sy'n adlewyrchu cymeriad sydd yn 'drasig' ac yn 'ddrwg'. Ceisiwch adlewyrchu un agwedd ar ei bersonoliaeth a cheisiwch gyfleu hyn yn effeithiol i'r sawl sy'n gwranddo.



Cyfansoddi i adlewyrchu emosiwn y sefyllfa

Enghraifft:

Act II anghydfod rhwng Germont a Violetta.

Mae 'Non sapete quale affetto, Un dì, quando le veneri' a 'Dite alla giovine' oll yn cyfleu ystod eang o emosiwn wrth i Germont gyhuddo Violetta o ddifetha bywyd ei fab a pheryglu gobeithion ei ferch i briodi. Wedi ei brifo ac yn ddigalon mae hi'n dangos derbynebaw gwerthiant ei meddiannau – serch hynny mae Giorgio'n parhau i fynnu iddi adael Alfredo er mwyn iddo fedru cadw enw da'r teulu. Yn deilchion ac yn gweld ei breuddwyd yn llithro o'i gafael, mae'n ceisio taro bargaen â Germont gan sôn wrtho am ei salwch a'r cariad sydd ganddi at Alfredo. Ond nid yw Germont am wrando ac yn y diwedd mae Violetta'n cytuno i adael gyda'r addewid y caiff Alfredo wybod y gwir pan fydd hi'n marw.

Anogwch eich disgyblion i feddwl ynglŷn â sut mae cerddoriaeth angerddol yn symud yn sydyn rhwng gwahanol emosiynau o falchder, gobaith, dicter, cymymdeimlad ac anobaith.

Tasg y disgybl:

Mewn grwpiau, gofynnwch i'ch disgyblion greu sefyllfa lle y gallai dadl emosiynol ddigwydd rhwng dwy genhedlaeth, megis dadleuon gyda rhieni dros ffasiwn, ffonau, cariadon, agwedd ac ati.

Gofynnwch i ddau ddisgybl, yn ddelfrydol rhai sydd â lleisiau gwahanol i'w gilydd, ddatblygu dadl sydd yn defnyddio chwe brawddeg yn unig yn datblygu o anghydfod i ddatrysiad. Anogwch nhw i ddefnyddio tonau gwahanol yn y llais, deinameg a tempo amrywiol i weld a fydd hyn yn newid neu yn cryfhau emosiwn y frawddeg. Gellid datblygu hyn ymhellach drwy osod y ddadl i gerddoriaeth ac arbrofi gyda sut y gall trawiad, ailadrodd a themâu melodaidd oll gael eu defnyddio i ddatblygu a datrys y sefyllfa.